

*Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru Cam 1:
Trefniadau Cyllid Myfyrwyr*

Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Yr Athro R. Merfyn Jones

Hydref 2008

Cynnwys

Cyflwyniad:	Cefndir		Tudalen
	Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen		2
	<i>Hysbysiad i'r Wasg ynghylch cynnal</i>	<i>Atodiad 01</i>	4
	<i>Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru</i>		
	<i>Ciplun o Gadeirydd ac aelodau Grŵp</i>	<i>Atodiad 02</i>	
	<i>Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad</i>		
	<i>Cylch Gorchwyl yr Adolygiad</i>	<i>Atodiad 03</i>	
	<i>Cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen</i>	<i>Atodiad 04</i>	
	Trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol Cymru		5
	<i>Diffiniad o'r Mathau o Gyllid</i>	<i>Atodiad 05</i>	
	<i>Tabl cymhwysedd a graffiau'n dangos y</i>	<i>Atodiad 06</i>	
	<i>trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol</i>		
	Cymhariaeth â Lloegr		7
	<i>Matrics yn crynhoi prif nodweddion</i>	<i>Atodiad 07</i>	
	<i>trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol pedair</i>		
	<i>gwlad y DU</i>		
	Niferoedd y myfyrwyr israddedig yng		9
	Nghymru		
	<i>Gwybodaeth ystadegol gryno ynghylch</i>	<i>Atodiad 08</i>	
	<i>sector AU Cymru a myfyrwyr sydd fel arfer</i>		
	<i>yn byw yng Nghymru</i>		
Y Prif Faterion			10
Y senarios a ystyriwyd a gwerthusiad			14
	<i>Yr Opsiynau o ran Diwygio Cyllid Myfyrwyr</i>	<i>Atodiad 09</i>	
	<i>– Y Senarios Enghreifftiol a Ystyriwyd gan</i>		
	<i>y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (tablau</i>		
	<i>cymhwysedd)</i>		
	<i>Yr Opsiynau o ran Diwygio Cyllid Myfyrwyr</i>	<i>Atodiad 10</i>	
	<i>– Y Senarios Enghreifftiol a Ystyriwyd:</i>		
	<i>Astudiaethau Achos o Fyfyrwyr</i>		
	<i>Yr Opsiynau o ran Diwygio Cyllid Myfyrwyr</i>	<i>Atodiad 11</i>	
	<i>– Y Senarios Enghreifftiol a Ystyriwyd:</i>		
	<i>Graffiau o Senarios</i>		
Yr opsiynau o ran helpu gyda dyledion			17
Casgliadau			20
Argymhellion			22
	<i>Rhestr Termau a Byrfoddau</i>	<i>Atodiad 12</i>	

Cyflwyniad

Cefndir

O'r flwyddyn academaidd 2006/07¹ datganolwyd y cyfrifoldeb am gyllid myfyrwyr statudol i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ers hynny, mae cyllid myfyrwyr statudol i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr wedi newid mewn sawl ffordd.

Yn y flwyddyn academaidd 2006/07, waeth ble yr oeddent yn byw fel arfer, roedd yn rhaid i fyfyrwyr a astudiaï yn Lloegr dalu ffioedd amrywiadwy o hyd at £3,000 y flwyddyn (£3,145 ym mlwyddyn academaidd 2008/09). Yr un adeg diddymwyd ffioedd cyn cychwyn a chyflwynwyd Benthyciadau Ffioedd Dysgu heb brawf modd i sicrhau na fyddai'n rhaid i unrhyw fyfyrwr israddedig amser llawn dalu ffioedd wrth gychwyn mewn addysg uwch – trefnwyd bod Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael i dalu'r ffi amrywiadwy llawn. At hynny cyflwynwyd Grant Cynhaliath newydd o hyd at £2,700 y flwyddyn na fyddai'n rhaid ei ad-dalu ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn newydd yn lle'r Grant Addysg Uwch (£1,000).

Yng Nghymru, bodlonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad maniffesto na fyddai 'ffioedd atodol' (ffioedd amrywiadwy) yn cael eu cyflwyno yn oes ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, adeg y datganoli, roedd pecyn cyllid myfyrwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru fwy neu lai yr un peth â phecyn Lloegr ar wahân i'r ffaith fod pob myfyrwr israddedig amser llawn a astudiaï yng Nghymru yn gorfod talu ffi dysgu o £1,200. Fodd bynnag, aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati hefyd i gyflwyno Benthyciadau Ffioedd Dysgu heb brawf modd ac i gael gwared â ffioedd cyn cychwyn.

Ar sail astudiaeth annibynnol i ddatganoli'r system cymorth i fyfyrwyr a'r gyfundrefn ffioedd dysgu yng Nghymru,² cytunodd Gweinidogion ym Mehefin 2005 y dylai sefydliadau addysg uwch Cymru (SAU) godi 'ffioedd dysgu hyblyg wedi'u gohirio' o hyd at £3,000 y flwyddyn o'r flwyddyn academaidd 2007/08 (£3,145 ym mlwyddyn academaidd 2008/09). Ochr yn ochr â hyn, cafodd myfyrwyr a oedd yn astudio yn SAU Cymru – myfyrwyr a oedd fel arfer yn byw yng Nghymru neu yng ngwledydd eraill yr UE y tu allan i'r DU – gynnig Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd a oedd i bob pwrpas yn gwrthbwysu costau ychwanegol y ffioedd i'r myfyrwyr hyn.³

¹ Pan gyfeirir at flynyddoedd academaidd, defnyddir y ffurf 2008/09 *etc.* Pan gyfeirir at flynyddoedd ariannol, defnyddir y ffurf 2008-09 *etc.*

² *Ariannu Teg a Hyblyg: Model Cymreig ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd a Mynediad mewn Addysg Uwch. Adroddiad Terfynol Astudiaeth Annibynnol i Ddatganoli'r System Cymorth i Fyfyrwyr a'r Gyfundrefn Ffioedd Dysgu yng Nghymru (Adolygiad Rees)*, Ebrill 2005. Paratowyd yr adroddiad hwn gan Grŵp adolygu annibynnol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Teresa Rees. Eir ati yn yr adroddiad i argymhell y ffordd orau o ddefnyddio'r pwerau datganoledig, yng nghyd-destun sector addysg uwch y DU, i sicrhau bod gan Gymru sector wedi'i ariannu'n ddigonol a bod cymorth teg a hyblyg ar gael i fyfyrwyr.

³ Mae gwladolion o fannau eraill yn yr UE y tu allan i'r DU hefyd yn gymwys i gael yr holl gymorth ffioedd a gynnigir gan y wladwriaeth yn y DU i fyfyrwyr cartref.

Yn 2007, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, amlinellodd grwpiau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad yng nghytundeb *Cymru'n Un* raglen ar gyfer llywodraethu Cymru rhwng 2007 a 2011. Roedd yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol o ran cyllid myfyrwyr:

Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer dyledion myfyrwyr ac yn rhewi'r lefelau ffioedd yng Nghymru hyd at 2009/10, gan gynnwys y flwyddyn honno. Byddwn yn cynnal y lefel adnoddau gyfredol drwy gydol tymor pedair blynedd y Cynulliad, gan wneud beth bynnag sy'n bosibl i leihau'r effeithiau ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru os bydd llywodraeth San Steffan yn codi'r ffioedd yn 2009.

Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Yn erbyn y cefndir hwn, ar 25 Mehefin 2008, cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ei bod yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal adolygiad deugam o addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn is-grŵp i'r Grŵp Cynghori a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Nod cam cyntaf yr adolygiad, a ddaeth i ben ddiwedd Medi 2008, oedd ystyried trefniadau cyllid myfyrwyr Cymru. Yn benodol, gofynnwyd i'r Grŵp asesu i ba raddau y caiff cyllid myfyrwyr ei dargedu er mwyn ehangu mynediad ac annog mwy o bobl i astudio pynciau blaenoriaeth. Hefyd roedd angen nodi opsiynau ar gyfer helpu i fynd i'r afael â dyledion graddedigion.

At hynny gofynnwyd i'r Grŵp ystyried cyd-destun adolygiad 2009 Lloegr o'r cap ar ffioedd, a sut y gellid mynd ati i ddiwygio trwy gyllid myfyrwyr statudol cenedlaethol a dulliau eraill megis bwrsariau ac ysgoloriaethau lleol.

Mae'r adroddiad hwn gan yr Athro Merfyn Jones, Cadeirydd y Grŵp, yn ganlyniad i gam cyntaf yr adolygiad.

Mae Adolygiad yn cael ei gynnal o Gyflenwi Cyllid Myfyrwyr yr un pryd â'r adolygiad hwn. Mae'r Grŵp yn ymwybodol y gallai datblygiadau yn yr Adolygiad Cyflenwi bennu'r dulliau a ddefnyddir i gyflenwi cyllid myfyrwyr yn y dyfodol.

Bydd ail gam yr adolygiad yn canolbwyntio ar adolygu cenhadaeth, diben, swyddogaeth a chyllid addysg uwch yng Nghymru. Mae argymhellion yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at faterion a godwyd gan gam cyntaf yr adolygiad a bydd y Grŵp yn eu hystyried ymhellach yn ystod yr ail gam.

Ceir yr hysbysiad llawn i'r wasg ynghylch y cyhoeddiad hwn yn **Atodiad 01**.

Ceir cipluniau o holl aelodau'r Grŵp yn **Atodiad 02**.

Ceir Cylch Gorchwyl llawn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn **Atodiad 03**.

Ceir crynodeb o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn **Atodiad 04**.

Y trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid myfyrwyr statudol ar gyfer israddedigion rhan-amser ac amser llawn mewn addysg uwch (AU) ac addysg bellach, a hynny drwy ei phartneriaid cyflenwi. Darperir y gwasanaethau cyllid myfyrwyr statudol hyn gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, gan awdurdodau lleol Cymru, gan sefydliadau addysg uwch Cymru (SAU), a chan Gyllid a Thollau EM, o dan frand 'Cyllid Myfyrwyr Cymru'. Mae gan bob partner ei swyddogaeth ei hun. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys hyrwyddo, asesu a thalu grantiau yn ogystal â chasglu benthyciadau.

Enghraifft o hawl myfyriwr

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2008/09, gallai myfyriwr israddedig amser llawn newydd mewn AU sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, sy'n dod o gefndir incwm isel (incwm cartref o £18,370 neu lai), sy'n astudio mewn sefydliad yng Nghymru ac yn byw oddi cartref, fod â hawl i'r cyllid myfyrwyr statudol canlynol:

Cyllid myfyrwyr ar gyfer costau byw

- o Grant Dysgu'r Cynulliad o £2,835
- o Benthyciad Cynhaliaeth o £3,370*

Cyllid myfyrwyr ar gyfer ffioedd dysgu

- o Grant Ffioedd Dysgu o £1,890
- o Benthyciad Ffioedd Dysgu o £1,255

Yn ogystal â'r cyllid myfyrwyr statudol, byddai myfyriwr israddedig amser llawn ag incwm cartref o £18,370 neu lai sy'n astudio mewn SAU yng Nghymru â hawl, trwy Gynllun Bwrsariaeth Cymru, i gael bwrsari o £310 y flwyddyn o leiaf gan y SAU, waeth ble yn y DU y bydd yn byw fel arfer. (Mae bwrsariau ac ysgoloriaethau eraill ar gael hefyd i rai myfyrwyr yn y rhan fwyaf o SAU.)

Pe bai myfyriwr o'r fath sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn dewis astudio yn Lloegr ni fyddai'n gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu, ond byddai'n gymwys i gael Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £3,145. Byddai ganddo hawl o hyd i gael cyllid myfyrwyr statudol ar gyfer costau byw (oni bai ei fod yn astudio yn Llundain neu'n byw gartref).

** Am bob £1 o Grant Dysgu'r Cynulliad a dderbynnir, bydd swm y Benthyciad Cynhaliaeth y gellir ei hawlio yn gostwng £1, hyd at uchafswm o £1,255 megis yn yr enghraifft hon.*

Caiff hawliau eu hailasesu'n flynyddol. Mae grantiau statudol eraill ar gael i fyfyrwyr mewn amgylchiadau penodol, megis myfyrwyr ag anableddau/ anawsterau dysgu penodol, neu fyfyrwyr ag oedolion dibynnol neu blant.

At ddibenion ad-dalu, caiff Benthyciad Cynhaliaeth a ffi benthyciad y benthyciwr eu cyfuno'n un swm. Caiff y benthyciadau hyn eu cymorthdalu gan fod y llog a godir arnynt yn isel ac yn cyfateb i'r gyfradd chwyddiant (fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Manwerthu). Ni fydd myfyrwyr yn ad-dalu dim hyd nes y mis Ebrill ar ôl iddynt adael eu cwrs (y 'dyddiad dechrau ad-dalu statudol' fel y'i gelwir). Yna byddant yn dechrau ad-dalu benthyciadau trwy'r system dreth pan fyddant yn ennill mwy na £15,000 y flwyddyn. Ad-delir ar gyfradd o 9% o unrhyw incwm a dderbyniwyd uwchben y trothwy hwnnw o £15,000 y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod ad-dalu benthyciadau yn broses gynyddol – bydd y swm a ad-delir yn codi wrth i'r incwm godi.

Os na fydd benthycwyr wedi ad-dalu eu benthyciad 25 mlynedd ar ôl eu dyddiad dechrau ad-dalu statudol, bydd y llywodraeth yn dileu eu benthyciad. Os bydd benthyciwr yn marw, neu os bydd benthyciwr yn derbyn budd-dâl anabledd ac yn methu gweithio o gwbl oherwydd yr anabledd, bydd y llywodraeth yn dileu ei fenthyciad.

Dyma brif elfennau system cyllid myfyrwyr statudol Cymru:

<i>Cynnyrch</i>	<i>Cyllideb y flwyddyn ariannol 08-09</i>
Benthyciadau Cynhaliaeth	£163 miliwn
Darpariaeth RAB* ar gyfer Benthyciadau Cynhaliaeth	£36 miliwn
Cyllid Benthyciadau Ffioedd Dysgu	£58 miliwn
Darpariaeth RAB* ar gyfer Ffioedd Benthyciadau	£22 miliwn
Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer AU	£42 miliwn
Grant Ffioedd Dysgu	£61 miliwn
Grantiau a dargedir (ee gofal plant, anabledd)	£11 miliwn

Caiff y Grant Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer AU (GDC (AU)), a grantiau a dargedir eu hariannu trwy Arian Parod y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): arian parod o DEL Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Caiff Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth eu hariannu'n uniongyrchol (hy yr arian a fenthycir gan y myfyriwr) trwy Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Caiff AME ei adolygu a'i bennu'n flynyddol gan Drysorlys EM. Caiff unrhyw arian na wariwyd ei ddychwelyd i Drysorlys EM; ni ellir ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ddilynol, ac ni ellir ei ailgylchu o un rhaglen AME i un arall na'i drosglwyddo i gynyddu'r DEL.

Caiff Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth eu hariannu'n anuniongyrchol (hy* cost darparu cymhorthdal cyfradd llog y benthyciad a'r ddarpariaeth ar gyfer dileu'r benthyciad, sef y ddarpariaeth Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB) a nodir uchod) trwy DEL Llywodraeth Cynulliad Cymru Nad yw'n Arian Parod.

Ceir diffiniadau o DEL Arian Parod, AME Arian Parod, DEL Nad yw'n Arian Parod ac RAB yn **Atodiad 05** o'r adroddiad hwn.

Cyflwynir y trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol ar gyfer israddedigion AU amser llawn sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ar ffurf tabl cymhwysedd a graff yn **Atodiad 06**.

Cymhariaeth â'r trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr

Enghraifft o hawl myfyriwr

Mewn cymhariaeth, gallai myfyriwr israddedig AU amser llawn sydd fel arfer yn byw yn Lloegr, sydd â'r un incwm cartref, ac sy'n astudio rhywle yn Lloegr neu yng Nghymru (ac eithrio'r rheini sy'n astudio yn Llundain a'r rheini sy'n byw gartref) fod â hawl i'r cyllid myfyrwyr statudol canlynol:

Cyllid myfyrwyr ar gyfer costau byw

- o Grant Cynhaliaeth o £2,835
- o Benthyciad Cynhaliaeth o £3,365*

Cyllid myfyrwyr ar gyfer ffioedd dysgu

- o Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £3,145

** Am bob £1 o Grant Cynhaliaeth a dderbynnir, bydd swm y Benthyciad Cynhaliaeth y gellir ei hawlio yn gostwng £1, hyd at uchafswm o £1,260 megis yn yr enghraifft hon.*

Fodd bynnag, mae'r trefniadau cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr wedi newid rhywfaint yn ddiweddar:

- o Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2008/09 mae lefelau incwm cartref y Grant Cynhaliaeth, sy'n cyfateb yng Nghymru i Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer addysg uwch (GDC (AU)), wedi cynyddu'n sylweddol, felly mae mwy o fyfyrwyr yn gymwys i dderbyn grant. Bydd myfyrwyr amser llawn newydd yn gymwys ar gyfer Grant Cynhaliaeth llawn os yw eu hincwm cartref yn £25,000 neu lai, neu Grant Cynhaliaeth rhannol os yw eu hincwm cartref rhwng £25,000 a £60,005. Mewn cymhariaeth, bydd myfyrwyr amser llawn newydd sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn gymwys ar gyfer GDC (AU) llawn os yw eu hincwm cartref yn £18,370 neu lai, neu GDC (AU) rhannol os yw eu hincwm cartref rhwng £18,370 a £39,300.
- o Mae Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi y bydd pob person ifanc 16 oed yn Lloegr sy'n gymwys ar gyfer Lwfans Cynhaliaeth Addysgol o flwyddyn academiaidd 2008/09 yn bendant yn cael lefel sylfaenol o gymorth cynhaliaeth yn y brifysgol.
- o At hynny, bydd pob myfyriwr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr, sy'n dechrau cwrs addysg uwch ym mlwyddyn academiaidd 2008/09 neu'n hwyrach, sy'n cael ei fenthyciad myfyriwr cyntaf, ac sydd â dyddiad dechrau ad-dalu statudol o Ebrill 2012 neu'n hwyrach, â hawl i wyliau

rhag ad-dalu. Diben gwyliau rhag ad-dalu yw helpu benthycwyr i wneud dewisiadau hyblyg ynghylch eu harian ar adegau allweddol yn eu bywydau a'u gyrfaedd (er enghraifft wrth brynu eiddo neu gychwyn teulu). Bydd benthycwyr cymwys yn cael cynnig gohirio'u had-daliadau benthyciad myfyriwr am un i bum mlynedd, er na fydd yn rhaid cymryd y pum mlynedd yn olynol. Caiff gwyliau rhag ad-dalu eu cysylltu â blynyddoedd treth, ond ar wahân i hynny gellir cymryd gwyliau rhag ad-dalu unrhyw bryd. Bydd llog – ar yr un gyfradd â chwyddiant – yn parhau i gael ei godi ar weddill y benthyciadau yn ystod y gwyliau rhag ad-dalu. Bydd unrhyw wyliau rhag ad-dalu'n estyn y cyfnod dileu 25 mlynedd o hyd y gwyliau rhag ad-dalu – er enghraifft, bydd cyfnod dileu 25 mlynedd rhywun sy'n cymryd gwyliau rhag ad-dalu o 5 mlynedd yn estyn i 30 mlynedd.

Ceir matrices yn crynhoi prif nodweddion system cyllid myfyrwyr pedair gwlad y DU yn **Atodiad 07**.

Niferoedd y myfyrwyr israddedig yng Nghymru

Ym mlwyddyn academiaidd 2006/07:

- Roedd tua 66,000 o israddedigion amser llawn wedi'u cofrestru yn SAU Cymru, 12 y cant yn fwy na phum mlynedd yn ôl;
- Roedd tua 51,000 o israddedigion amser llawn a oedd fel arfer yn byw yng Nghymru yn astudio yn SAU y DU, 7 y cant yn fwy na phum mlynedd yn ôl;
- Roedd tua 38,000 o israddedigion rhan-amser wedi'u cofrestru yn SAU Cymru, 15 y cant yn fwy na phum mlynedd yn ôl;
- Roedd tua 37,000 o israddedigion rhan-amser a oedd fel arfer yn byw yng Nghymru wedi'u cofrestru yn SAU y DU, 6 y cant yn fwy na phum mlynedd yn ôl.

Mae llifau trawsffiniol o fyfyrwyr rhwng Cymru a Lloegr yn nodwedd amlwg yn addysg uwch Cymru. Ym mlwyddyn academiaidd 2006/07, ymhlith y myfyrwyr hynny a oedd fel arfer yn byw yn y DU ac wedi'u cofrestru'n israddedigion amser llawn yn SAU Cymru, roedd tua 55 y cant yn fyfyrwyr a oedd fel arfer yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn is na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer gwledydd eraill y DU.

Llifau trawsffiniol rhwng gwledydd y DU o ran cofrestriadau israddedigion AU amser llawn / rhyngosod 2006/07 (a)

Canran	Gwlad astudio				Astudio yn eu gwlad eu hunain
	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	
Myfyrwyr Cymru	65	34	1	0	65
Myfyrwyr Lloegr	3	95	2	0	95
Myfyrwyr yr Alban	0	5	94	0	94
Myfyrwyr Gogledd Iwerddon	1	19	11	70	70
Myfyrwyr cartref	55	96	83	99	

(a) Nid yw'r ffigurau'n cynnwys myfyrwyr o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw

Ymhlith y myfyrwyr hynny a oedd fel arfer yn byw yn y DU ac wedi'u cofrestru'n israddedigion amser llawn yn SAU Cymru, roedd 44 y cant yn fyfyrwyr a oedd fel arfer yn byw yn Lloegr.

Ceir rhagor o wybodaeth ystadegol am sector AU Cymru a myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn **Atodiad 08**.

Y prif faterion

Oherwydd amserlen dynn ei Gylch Gorchwyl, pennwyd cwmpas cul ond cyraeddadwy i waith y Grŵp ac aethpwyd ati i adolygu'r cyllid myfyrwyr a ddarperir ar gyfer israddedigion amser llawn yn unig. Yn ystod ei drafodaethau, nododd y Grŵp nifer o faterion yr oedd yn awyddus i ddychwelyd atynt yng Ngham 2. Cydnabu'r Grŵp, fel y nodwyd yn eglur yn ei Gylch Gorchwyl, fod angen i Gam 1 'werthuso argymhellion yn erbyn ystyriaethau cyllidebol ac ariannol'. Fodd bynnag, mae'r Grŵp wedi cytuno na fydd hyn yn cyfyngu ar ei syniadaeth yn ystod Cam 2.

Sylweddolodd y Grŵp yn gyflym fod angen nodi argymhellion fforddiadwy ac effeithiol a fyddai'n adeiladu ar gryfderau'r system gyfredol ac yn ategu blaenoriaethau 'Cymru'n Un' y Llywodraeth. Mewn amgylchedd ariannol anodd, roedd y Grŵp yn sylweddoli bod gwariant y llywodraeth yn cael ei ddadansoddi'n drylwyr fel sy'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd y Grŵp yn credu bod cynnig lefelau cymorth, taprau neu drothwyon manwl yn rhan o'i gylch gorchwyl. Yn hytrach, mae'r Grŵp wedi awgrymu fframwaith cyffredinol sy'n briodol yn ei dyb, ac ar sail y fframwaith cyflwynir argymhellion ar gyfer diwygio'r system cyllid myfyrwyr ynghyd ag enghreifftiau.

Roedd y Grŵp yn teimlo'n benodol fod angen symleiddio yn hytrach na chymhlethu'r holl ddewisiadau sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr wrth iddynt bwyso a mesur drostynt eu hunain gostau a manteision addysg uwch.

Man cychwyn y Grŵp o ran y system cyllid myfyrwyr oedd cydnabod cryfderau'r trefniadau cyfredol, eu heffaith gyffredinol ar fyfyrwyr a'u perthynas â pholisïau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nododd y Grŵp nifer o ddiffygion difrifol yn y polisi Grant Ffioedd Dysgu cyfredol ar gyfer myfyrwyr amser llawn a daethpwyd i'r casgliad nad oedd bellach yn ddigon effeithiol nac yn ddigon cynaliadwy.

Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, ystyriodd y Grŵp i ba raddau y caiff 'cyllid myfyrwyr' ei dargedu er mwyn ehangu mynediad. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi Grant Ffioedd Dysgu sy'n cynnig cymorth ffioedd safonol i fyfyrwyr amser llawn sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru, waeth beth fo incwm y cartref, ac ni fydd yn helpu rhai o gartrefi incwm isel sy'n astudio y tu allan i Gymru. Ymhlith pethau eraill, mae'n ymddangos bod y system gyfredol yn cyfeirio arian yn anfwriadol er mwyn rhoi cymorth ffioedd hael i fyfyrwyr o wledydd Ewropeaidd y tu allan i'r DU. Yn olaf, mae'r system gyfredol yn canolbwyntio cyllid myfyrwyr mewn cyllid statudol a gytunwyd yn genedlaethol yn hytrach na rhoi ystod ehangach o ddewisiadau i fyfyrwyr y gellid eu hasesu a'u targedu'n fwy effeithiol ar lefel leol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd aelodau'r Grŵp yn ymwybodol iawn o'r gwahaniaeth rhwng lefel y cyllid yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig yng ngoleuni amcangyfrifon diweddar CCAUC fod bwlch ariannu o oddeutu £61 miliwn o leiaf ym mlwyddyn academiaidd 2005/06 rhwng AU yng Nghymru a Lloegr, a bod angen dybryd i fuddsoddi mwy yn y sector AU er budd myfyrwyr. Roedd y

Grŵp yn sylweddoli bod ansawdd profiad y myfyriwr ac ansawdd y ddarpariaeth, p'un a yw'n sector â rhagoriaeth yn ei gyfleusterau neu'n un â system ddeniadol o fwrsariau a dargedir yn dda, yn hanfodol i sicrhau'r gorau, o ran ansawdd a gwerth am arian, y gall AU ei gynnig i fyfyrwyr.

Roedd y Grŵp hefyd yn credu'n bendant fod buddsoddi mewn addysg uwch yn fanteisiol i economi, cymdeithas a diwylliant ehangach Cymru yn ogystal ag i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector AU. Nid oes yr un gymdeithas fodern yn bodoli nad yw'n ystyried Sector AU ag adnoddau da yn hanfodol i'w ffyniant a'i dyfodol.

Datblygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fframwaith o flaenoriaethau a oedd yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfleoedd, canlyniadau dymunol a chyfyngiadau. Yna defnyddiwyd y fframwaith yn sylfaen i drafodaeth y Grŵp ac i werthuso opsiynau. Gan ddefnyddio'i Gylch Gorchwyl yn fan cychwyn, cytunodd y Grŵp y dylai unrhyw system cyllid myfyrwyr:

- Fynd i'r afael yn effeithiol ag amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys ehangu mynediad, cynyddu nifer y rhai sy'n astudio pynciau blaenoriaeth, sicrhau gweithlu medrus i Gymru, a hybu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau os oes modd nad yw myfyrwyr o gartrefi â'r incymau isaf ar eu colled o ganlyniad i ddiwygio'r system cyllid myfyrwyr. Dylid cynnig o leiaf yr un lefel o gymorth grant i'r teuluoedd hynny ag a gynigir ar hyn o bryd i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac yn astudio mewn SAU yng Nghymru;
- Bod mor syml a thryloyw â phosibl, yn enwedig i fyfyrwyr, yn unol ag argymhellion ail adolygiad yr Athro Rees, *Ariannu Teg a Hyblyg*;
- Sicrhau gwerth am arian drwy dargedu cymorth i leihau'r costau a'r dyledion sy'n gysylltiedig ag AU i'r myfyrwyr a'r cartrefi hynny a fyddai'n elwa fwyaf ar yr adeg y byddent yn elwa fwyaf, hy dylid cynorthwyo'r rhai mewn angen pan fydd angen cymorth arnynt fwyaf;
- Cadw system nad yw'n gofyn i israddedigion amser llawn dalu dim wrth gychwyn mewn AU;
- Cofio bod gwahanol lwybrau at AU, bod ffyrdd gwahanol o astudio, a bod modd astudio ar wahanol lefelau;
- Bod yn effro i'r cysylltiad agos rhwng Cymru a Lloegr yn y farchnad AU ac i bwysigrwydd myfyrwyr Lloegr i Sector AU Cymru;
- Cydnabod yr angen i gynnal Sector AU bywiog, iach a safonol yng Nghymru; bydd y Grŵp yn rhoi mwy o sylw i hyn yng Ngham 2;
- Bod yn fforddiadwy yng nghyd-destun setliad cyllid cyhoeddus tyn dros y blynyddoedd nesaf o leiaf.

Ar sail y fframwaith cyffredinol hwn, edrychodd y Grŵp ar y trefniadau cyllid myfyrwyr cyfredol yng Nghymru a'u cyd-destun ehangach.

Nododd y Grŵp nifer o gryfderau yn y system gyfredol:

- Ers cyflwyno Benthyciadau Ffioedd Dysgu a gymorthdelir a diddymu ffioedd cyn cychwyn, nid yw israddedigion amser llawn o'r DU a'r UE wedi gorfod talu dim wrth gychwyn mewn addysg uwch. Oherwydd hyn mae'r cyfraddau cyfranogi wedi codi er gwaethaf y cynnydd yn y ffioedd dysgu ym mlwyddyn academiaidd 2006/07.
- Bydd Grant Dysgu'r Cynulliad (ar gyfer addysg uwch), sy'n destun prawf modd, yn helpu myfyrwyr o gartrefi incwm isel. Yn **Atodiad 08** ceir manylion am ddosbarthiad Grantiau Dysgu'r Cynulliad ac ystadegau cysylltiedig ynghylch cyllid myfyrwyr ar gyfer israddedigion amser llawn sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Grant Dysgu'r Cynulliad yw un o brif ddulliau Llywodraeth Cynulliad Cymru o Ehangu Mynediad. Hefyd yn **Atodiad 08** ceir data ynghylch cyfranogiad.
- Bydd Benthyciadau Cynhaliath a gymorthdelir yn helpu'r holl israddedigion amser llawn cymwys i dalu costau byw wrth iddynt astudio.
- Am fod telerau ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn ddibynnol ar incwm, mae'r hyn a ad-delir yn gysylltiedig ag enillion.
- Mae dulliau wedi'u sefydlu i alluogi SAU i roi arian yn uniongyrchol i fyfyrwyr ar ffurf bwrsariau ac ysgoloriaethau.

Fodd bynnag, wrth gymharu fframwaith blaenoriaethau'r Grŵp â'r system gyfredol, nododd y Grŵp nifer o bryderon hefyd a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r Grant Ffioedd Dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n astudio'n llawn-amser yng Nghymru.

Mae'r Grant Ffioedd Dysgu i'w weld yn anghyson â'r egwyddor o dargedu cyllid myfyrwyr a nodir yn y Cylch Gorchwyl.

Nid yw'r Grant Ffioedd Dysgu yn destun prawf modd, felly bydd y rhai o gartrefi incwm uchel yn elwa i'r un graddau â'r rhai o gartrefi incwm isel.

Gellid dweud hefyd fod y Grant Ffioedd Dysgu yn annheg i grwpiau eraill o fyfyrwyr ac yn peri anfantais iddynt.

Mae rhai myfyrwyr wedi dadlau bod y trefniadau Grant Ffioedd Dysgu cyfredol yn peri anfantais iddynt. Er enghraifft, myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n gorfod mynd o Gymru i astudio am nad yw'r pynciau sydd ar gael yng Nghymru yn cydweddu â'u hanghenion a'u hamgylchiadau personol; myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n dewis astudio y tu allan i Gymru; a myfyrwyr o fannau eraill yn y DU sy'n dewis astudio yng Nghymru.

Mae cost y Grant Ffioedd Dysgu eisoes yn uchel a bydd yn codi'n uwch yn y blynyddoedd nesaf.

Gallai hyn beri perygl difrifol i sefydlogrwydd ariannol y system cyllid myfyrwyr yn y dyfodol – yn benodol, os bydd mwy o fyfyrwyr yn hawlio'r Grant Ffioedd Dysgu, bydd hyd yn oed mwy o bwysau ar gyllidebau cyllid myfyrwyr.

Ystyriodd y Grŵp sut y gellid gwneud y system cyllid myfyrwyr gyfredol yn fwy cynaliadwy, yn arbennig yng ngoleuni ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad o lefel ffioedd dysgu yn 2009. Myfyriodd y Grŵp ar yr her hon yn ei Gylch Gorchwyl ond, gan fod cymaint o'r system cyllid myfyrwyr yn ddibynol ar y gyfundrefn ffioedd gyfredol, penderfynodd y gallai fod yn beryglus gweithredu cyn cyhoeddi canfyddiadau adolygiad 2009. Nodwyd y gallai costau'r Grant Ffioedd Dysgu godi pe bai'r Grant Ffioedd Dysgu cyfredol yn parhau a phe bai adolygiad 2009 o ffioedd dysgu yn argymhell codi'r cap ar ffioedd.

Felly, canolbwyntiodd y Grŵp yn lle ar sefyllfa bresennol y Grant Ffioedd Dysgu ac ystyriodd a fyddai'r polisi unigryw hwn yn peri anfantais i Gymru yn y cyfnod cyn cynnal adolygiad 2009.

Roedd y Grŵp hefyd yn ymwybodol fod bwlch ariannu sylweddol yn datblygu rhwng sefydliadau addysg uwch Cymru a Lloegr, tua £61 miliwn yn ôl amcangyfrif CCAUC, a bod hynny'n creu'r argraff fod Cymru'n tanfuddsoddi. Roedd y Grŵp o'r farn y gallai hynny ynddo'i hun annog myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a thu allan i Gymru i beidio ag astudio yng Nghymru.

Roedd y Grŵp eisiau nodi'n benodol fod y Sector AU yng Nghymru yn croesawu myfyrwyr o Loegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon i sefydliadau AU Cymru. Yn wir, mae'r sector AU yn dibynnu ar ddarparu addysg uwch uchel ei hansawdd nid yn unig ar gyfer myfyrwyr o Gymru ond hefyd ar gyfer rhai o wledydd eraill y DU. Roedd y Grŵp hefyd yn ymwybodol fod yr amserlen gyfyng ar gyfer cyflawni Cam 1 yn ei atal rhag ystyried marchnadoedd pwysig yr UE a gwledydd tramor.

Y Senarios a Ystyriwyd

Cynorthwywyd y Grŵp gan ei ysgrifenyddiaeth a chan arbenigwyr a ddarparodd ddadansoddiad o we gymhleth o amcanestyniadau ac opsiynau ariannu. Cyflwynwyd y Grŵp i feysydd cyfrifyddu'r llywodraeth ac i feysydd polisi, gan sicrhau sylfeini cadarn i drafodaethau'r Grŵp.

Mae argymhellion y Grŵp yn rhyddhau cyllid y dylid ei ddefnyddio i ddarparu mwy o gyllid myfyrwyr a dargedir ac i fuddsoddi mewn addysg uwch. Bwriedir iddynt fod yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy yn weinyddol.

Edrychodd y Grŵp yn ofalus ar gyfres o senarios diwygio. Ystyriodd y posibilrwydd o ddiwygio'r Grant Ffioedd Dysgu, naill ai drwy gyflwyno prawf modd, drwy ei ostwng i gyfradd wastad is, neu drwy ei ddiddymu'n gyfan gwbl. Ystyriodd y Grŵp sut y gellid cynyddu cymorth prawf modd i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru trwy Grant Dysgu cyfredol y Cynulliad. Craffodd hefyd ar y newidiadau a gyflwynwyd eleni yn Lloegr sy'n cynnig cymorth Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr o gartrefi ag incymau uwch ac ystyriodd effaith cael systemau cyllid myfyrwyr gwahanol yng Nghymru a Lloegr ar farchnad fyfyrwyr a nodweddir gan lifau trawsffiniol sylweddol. Ystyriodd y Grŵp effeithiau amrywio'r cydbwysedd rhwng y cyllid a roddir yn uniongyrchol i'r myfyriwr trwy'r system cyllid myfyrwyr a'r cyllid a fuddsoddir yn y Sector AU. Edrychodd ar y cydbwysedd rhwng cyllid myfyrwyr statudol ac anstatudol, ac ystyriodd sut y gallai ysgoloriaethau a bwrsariau a weinyddir ar lefel sefydliadol, pe bai'r cydbwysedd yn newid, ddiwallu anghenion lleol yn effeithiol a hybu strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r system gyfredol.

Comisiynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wybodaeth enghreifftiol ar nifer o senarios a fyddai'n dod â'r trefniadau cyllid myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr amser llawn yn nes at fframwaith y Grŵp, ac ar nifer o opsiynau ar gyfer rhoi mwy o gymorth i fyfyrwyr gyda dyledion.

Gwerthusiad

Roedd y Grŵp yn benderfynol o wella'r drefn gan gadw at ei fframwaith cyffredinol. Ceisiodd y Grŵp ddod o hyd i atebion y gallai myfyrwyr eu deall ar lefel ymarferol, ac a fyddai'n gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Defnyddiodd y Grŵp amrywiaeth o ddulliau i asesu i ba raddau yr oedd pob senario enghreifftiol a phob opsiwn cymorth dyledion yn cyflawni'r nodau hyn:

- Roedd y Grŵp yn credu bod yn rhaid dangos sut y gallai'r senarios a'r opsiynau arfaethedig wella'r system i fyfyrwyr unigol, er enghraifft drwy ehangu mynediad; drwy roi cymorth wedi'i wahaniaethu i raglenni uchel eu blaenoriaeth; neu drwy roi cymorth i raddedigion gyda dyledion. Felly, ystyriodd y Grŵp effaith pob senario ar fyfyrwyr ar wahanol lefelau o incwm cartref gweddilliol. Lluniodd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru gyfres o

‘astudiaethau achos myfyrwyr’ a’n galluogodd i weld eu heffaith ar unigolion mewn amgylchiadau penodol. Ceir yr wybodaeth hon yn llawn yn **Atodiadau 09, 10, ac 11**;

- Ystyriodd y Grŵp effaith pob senario ar wahanol grwpiau o randdeiliaid, ac ystyriwyd hefyd i ba raddau yr oedd pob senario yn mynd i’r afael ag amcanion strategol ac amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Ystyriodd y Grŵp bob senario ac opsiwn cymorth dyledion o ran cost, dulliau ariannu a goblygiadau gweinyddol.

Dyma’r senarios a werthuswyd:

1. Diddymu’r Grant Ffioedd Dysgu yn raddol o flwyddyn academaidd 2010/11 a chynyddu’r cymorth prawf modd sydd ar gael i fyfyrwyr drwy Grant Dysgu’r Cynulliad

Roedd y senario hwn yn awgrymu diddymu’r Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr newydd. Byddai peth o’r arian y byddai hyn yn ei ryddhau yn cael ei ddefnyddio i gynyddu Grant Dysgu’r Cynulliad a byddai’r gweddill ar gael i’w fuddsoddi yn y Sector AU er budd pob myfyriwr. Ystyriwyd dau amrywiolyn i asesu effaith addasu’r swm o arian a gedwir yn y system cyllid myfyrwyr. Roedd y senario yn targedu mwy o grant ar gyfer cymorth cynhالياeth i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel trwy Grant Dysgu’r Cynulliad ond nid oedd yn caniatáu targedu mwy o arian i gyflawni blaenoriaethau eraill, megis pynciau blaenoriaeth neu hybu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Cyflwyno prawf modd ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu yn raddol o flwyddyn academaidd 2010/11 a chynyddu Grant Dysgu’r Cynulliad

Roedd y senario hwn yn awgrymu cyflwyno prawf modd ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr newydd (tebyg i’r prawf modd a ddefnyddir eisoes ar gyfer Grant Dysgu’r Cynulliad). Roedd y senario’n darparu peth grant ychwanegol ar gyfer cymorth cynhالياeth trwy gynyddu Grant Dysgu’r Cynulliad ond i raddau llai nag o dan y senario diwethaf. Er y byddai’n cael ei dargedu at y rhai â’r angen mwyaf am gymorth, ni fyddai cyflwyno prawf modd ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu yn datrys rhai o’r problemau eraill sy’n gysylltiedig â’r grant.

3. Diddymu’r Grant Ffioedd Dysgu yn raddol o flwyddyn academaidd 2010/11 ac alinio system cyllid myfyrwyr Cymru â model Lloegr

Roedd y senario hwn yn adlewyrchu’r trefniadau ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr ar gyfer blwyddyn academaidd 2008/09 fel y’u nodwyd ar dudalen 7 uchod. Roedd y Grŵp yn meddwl y byddai’r grant ar gyfer elfen cymorth cynhالياeth y senario hwn yn cael ei ddargyfeirio at deuluoedd incwm canol, ac na fyddai myfyrwyr o gartrefi incwm isel yn cael unrhyw grant ychwanegol ar gyfer cynhالياeth o gymharu â’r system gyfredol (a gallai’r rhai sy’n astudio yng Nghymru fod ar eu colled am na fyddent mwyach, o dan y

senario hwn, â hawl i Grant Ffioedd Dysgu).

Roedd y Grŵp yn cydnabod bod angen cymorth ar rai teuluoedd incwm canol, ond roedd hefyd yn sylweddoli bod unrhyw system sy'n targedu cymorth yn benodol at rai myfyrwyr yn golygu bod eraill yn mynd i gael llai. Ar sail Cylch Gorchwyl a fframwaith y Grŵp, a chan ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, cytunodd y Grŵp wedi pwyso a mesur fod angen targedu cyllid at y rhai o gartrefi â'r incymau isaf.

Roedd y senario hefyd yn cynnwys y gwylliau rhag ad-dalu a'r polisïau gwarant Lwfans Cynhaliaeth Addysg (Addysg Uwch). Ymdrinnir â'r rhain ar wahân nes ymlaen yn yr Adroddiad hwn.

4. Cyflwyno'n raddol Grant Ffioedd Dysgu ar gyfradd wastad is o flwyddyn academiaidd 2010/11 a chynyddu Grant Dysgu'r Cynulliad

Roedd y senario hwn yn ystyried cyflwyno Grant Ffioedd Dysgu ar gyfradd wastad o £500. Nid oedd y Grŵp yn meddwl bod y dull hwn yn targedu cyllid yn ddigonol i ehangu mynediad ac annog mwy o fyfyrwyr i astudio pynciau blaenoriaeth fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.

5. Diddymu'r Grant Ffioedd Dysgu yn raddol o flwyddyn academiaidd 2010/11 a darparu mwy o fwrsariau ac ysgoloriaethau o SAU Cymru

Roedd y senario hwn yn edrych ar gyfleoedd i dargedu mwy o gyllid trwy SAU ar gyfer bwrsariau a dargedir yn lleol, ond nid oedd yn rhyddhau rhyw lawer o gyllid ar gyfer mwy o Grantiau Dysgu'r Cynulliad. Unwaith eto, nid ystyrid bod y dull hwn yn bodloni'r angen i sicrhau nad yw myfyrwyr o gartrefi â'r incymau isaf ar eu colled, o ran y grant a dderbynnir, o gymharu â'r system gyfredol.

6. Diddymu'r Grant Ffioedd Dysgu yn raddol o flwyddyn academiaidd 2010/11 a chynyddu Grant Dysgu'r Cynulliad yn sylweddol ar gyfer myfyrwyr o gartrefi incwm isel. Cymerir yn ganiataol y byddai'r senario hwn hefyd yn cynnwys peth cyllid ychwanegol ar gyfer bwrsariau ac ysgoloriaethau a dargedir o SAU

Cytunodd y Grŵp mai pecyn o ddiwygiadau cyllid myfyrwyr tebyg i hyn fyddai'r ffordd orau o fodloni'r fframwaith.

Roedd senarios y Grŵp yn cymryd i ystyriaeth amcanestyniadau o niferoedd myfyrwyr yn ogystal â data o'r gorffennol. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld gwariant ar gyllid myfyrwyr, yn enwedig os nad yw dull wedi'i roi ar brawf eto.

Yr Opsiynau a Ystyriwyd ar gyfer Helpu gyda Dyledion

Ar sail yr un fframwaith, ystyriodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd nifer o ffyrdd posibl i Lywodraeth y Cynulliad gyflawni'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* i "roi cymorth ychwanegol ar gyfer dyledion myfyrwyr":

(i) Gwyliau rhag ad-dalu tebyg i'r rhai sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr

Roedd y Grŵp o'r farn mai'r peth mwyaf atyniadol am wyliau rhag ad-dalu oedd eu bod yn ysgafnhau rhywfaint ar faich benthycwyr ar adegau pan fydd galwadau eraill ar eu harian. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y gwyliau rhag ad-dalu a gynigir drwy system cyllid myfyrwyr Lloegr yn fwy manteisiol i fenthycwyr ag incymau uwch na benthycwyr ag incymau is. Nid oedd hyn i'w weld yn gyson ag amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfiawnder cymdeithasol. Fodd bynnag, pe bai gan Weinidogion ddiddordeb yn yr opsiwn hwn, gallent ystyried a fyddai'n ymarferol rhoi cap incwm ar gymhwysedd ar gyfer gwyliau rhag ad-dalu.

(ii) Mynegrifo'r trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau myfyrwyr

Nid yw'r trothwy sefydlog cyfredol o £15,000 wedi'i newid ers iddo gael ei godi o'r trothwy gwreiddiol o £10,000 yn 2001. Roedd y Grŵp o'r farn mai diben gwreiddiol y trothwy hwn oedd ymateb i gyfoeth cymharol y graddedigion a ddeuai'n rhan o'r system ad-dalu, er mwyn sicrhau na fyddai graddedigion nad oedd yn ennill 'cyflog graddedigion' yn gorfod dechrau ad-dalu. Os na chodir y trothwy dros amser bydd bron pob benthyciwr yn y pen draw yn gorfod dechrau ad-dalu ar ôl cychwyn eu cyflogaeth. Roedd y Grŵp yn credu y gallai mynegrifo'r trothwy alluogi'r holl bartïon i gyllidebu'n well ar gyfer y dyfodol.

Nododd y Grŵp na fyddai benthycwyr yn sylwi ar unrhyw wahaniaeth o bwys ym mlwyddyn gyntaf y polisi hwn – byddent yn teimlo'i effaith dros amser wrth i gyflogau godi gyda chwyddiant.

Nododd y Grŵp fod ad-daliadau'n cael eu gweinyddu ar hyn o bryd ar lefel DU gyfan. Er nad oedd yn dymuno diystyru polisi ar sail cyfyngiadau gweinyddol, gellid gweld mai un o'r posibiliadau oedd argymhell bod Gweinidogion Cymru yn pwysu i gyflwyno'r newid hwn ledled y DU.

(iii) Codiad untro yn y trothwy ad-dalu i £20,000 ym mlwyddyn ariannol 2010-11 a mynegrifo'r trothwy ad-dalu o hynny ymlaen

Roedd yr opsiwn hwn yn debyg i'r un diwethaf ond roedd hefyd yn cynnwys codiad untro yn y trothwy ad-dalu i £20,000 ym mlwyddyn ariannol 2010-11. Roedd y Grŵp yn meddwl y byddai'r trothwy o £15,000 wedi codi'n sylweddol ar ôl 10 mlynedd pe bai wedi'i fynegrifo pan gyflwynwyd ef gyntaf. Oherwydd hynny roedd y Grŵp yn credu bod lle i ystyried codi'r trothwy yn uwch i oddeutu £20,000 cyn ei fynegrifo.

(iv) Cynllun i ad-dalu neu ddileu benthyciadau cyn-fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n cychwyn ar yrfaeodd yn y proffesiynau hynny sydd wedi'u blaenoriaethu yng Nghymru

Gall cymhellion ariannol i recriwtio graddedigion gan gynnwys cynlluniau i ad-dalu neu ddileu dyledion graddedigion, os ydynt wedi'u cysylltu â'r system cyllid myfyrwyr, fod yn gymhleth yn ariannol ac yn weinyddol ond yn gyfyngedig eu heffaith.⁴ Bydd amser hir rhwng cychwyn y trefniadau cyllid myfyrwyr a'r adeg pan fydd y person, ar ôl graddio, yn cychwyn mewn cyflogaeth. Daeth y Grŵp i'r casgliad ei fod yn fwy priodol cynnwys cynlluniau o'r fath yn y polisi marchnad lafur a rhybuddiodd yn erbyn eu cynnwys mewn trefniadau cyllid myfyrwyr.

(v) Lleihau'r galw am fenthyciadau myfyrwyr drwy gyflwyno grantiau, bwrsariau neu ysgoloriaethau yn eu lle, yn enwedig ar gyfer y rhai o gartrefi incwm isel

Nododd y Grŵp y byddai rhai o'r senarios enghreifftiol ar gyfer diwygio cyllid myfyrwyr yn lleihau'r galw am fenthyciadau myfyrwyr, yn arbennig drwy sicrhau cynnydd yng Ngrant Dysgu'r Cynulliad i rai myfyrwyr o gartrefi incwm isel. Nododd yr aelodau y gallai Llywodraeth y Cynulliad bennu i ba raddau y dylai'r cynnydd hwn yng Ngrant Dysgu'r Cynulliad effeithio ar gymhwysedd i gael rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth. Gallai rhoi mwy o gyllid i SAU ar gyfer bwrsariau i'w targedu at fyfyrwyr o gartrefi incwm isel hefyd leihau eu galw am fenthyciadau myfyrwyr.

(vi) Lleihau'r galw am fenthyciadau masnachol ymhlith myfyrwyr drwy annog mwy ohonynt i geisio benthyciadau myfyrwyr sy'n cynnig cynllun ad-dalu incwm-ddibynnol

Mae'r system fenthyciadau gyfredol yn dal yn effeithiol o ran sicrhau nad yw 'ffioedd cyn cychwyn' yn rhwystro rhai rhag cael mynediad at AU. Fodd bynnag, er bod llawer eisoes yn cael ei wneud i wella llythrennedd ariannol myfyrwyr a darpar fyfyrwyr, roedd y Grŵp yn credu bod angen gwneud llawer mwy i dynnu eu sylw at rai o fanteision ariannol benthyciadau myfyrwyr o'u cyferbynnu â benthyciadau masnachol.

⁴ Yn Patrick Barmby a Robert Coe, *Evaluation of the Repayment of Teachers' Loans Scheme*, Adroddiad Ymchwil Rhif 576 yr Adran Addysg a Sgiliau, 2004, ceir gwerthusiad o effaith y cynllun Ad-dalu Benthyciadau Athrawon yr oedd yr Adran Addysg a Sgiliau yn arfer ei weithredu. Amcangyfrifwyd bod y cynllun wedi cael rhywfaint o effaith ar benderfyniadau 30% o'r athrawon a holwyd at ddibenion y gwerthusiad.

Casgliadau

Wedi rhoi sylw i'r materion hyn daeth y Grŵp yn ôl at y fframwaith canolog o effeithiolrwydd, cynaliadwyedd ac eglurder. Daeth y Grŵp i'r casgliadau terfynol canlynol:

- Daeth y Grŵp i'r casgliad fod y Grant Ffioedd Dysgu safonol yn offeryn anhyblyg; nid yw'n targedu cyllid yn effeithiol at amcanion polisi strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru nac yn ymateb yn ddigonol i anghenion a dewisiadau myfyrwyr;
- Mae defnyddio'r Grant Ffioedd Dysgu i annog myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i astudio yng Nghymru yn creu anghyfartalwch rhwng sawl grŵp o fyfyrwyr, ac yn cynnig manteision i rai myfyrwyr ar draul eraill;
- Er ei fod yn anodd asesu cynaliadwyedd y polisi yng ngoleuni ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad o lefel y ffioedd dysgu yn 2009, roedd yn amlwg y byddai ffioedd uwch, neu ffioedd mwy hyblyg, naill ai yn gostwng y gyfran o'r ffi a delir gan y Grant Ffioedd Dysgu neu yn cynyddu cost y polisi'n sylweddol. Oherwydd hyn, daeth y Grŵp i'r casgliad y gallai parhau â'r polisi Grant Ffioedd Dysgu beri anfantais i Gymru yn y cyfnod cyn adolygiad 2009;
- Mewn cyfnod o dynhau gwariant, dylid dileu unrhyw gymorth cyllid myfyrwyr nad yw wedi ei dargedu'n ofalus;
- Oherwydd hyn, credwn na ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnig Grant Ffioedd Dysgu safonol o flwyddyn academaidd 2010/11;
- Roedd y Grŵp yn gytŷn y dylai incwm y cartref fod yn faen prawf allweddol ar gyfer targedu cymorth statudol. Byddai hynny'n sicrhau bod myfyrwyr addysg uwch amser llawn o'r cartrefi tlotaf yn cael mwy o gymorth cynhaliaeth na fyddai'n rhaid iddynt ei ad-dalu. Dylid defnyddio'r system cyllid myfyrwyr statudol yn bennaf i fynd i'r afael ag ehangu mynediad i rai o gartrefi incwm isel, a hynny drwy gynyddu'r cymorth cynhaliaeth a gynigir drwy Grant Dysgu'r Cynulliad;
- Byddai galluogi SAU Cymru i gynnig mwy o gymorth anstatudol trwy fwrsariau ac ysgoloriaethau ychwanegol yn ffordd well o hybu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Byddai cymorth anstatudol, hy drwy alluogi SAU Cymru i gynnig bwrsariau ac ysgoloriaethau ychwanegol, yn ffordd well hefyd o annog mwy o fyfyrwyr i astudio pynciau blaenoriaeth, am fod y broses o adnabod a thargedu'r pynciau hyn yn gymhleth;
- Os trefnir i adnoddau fod ar gael ar gyfer bwrsariau ac ysgoloriaethau sefydliadol ychwanegol, dylid sicrhau na fydd y cronfeydd hyn yn effeithio ar gydbwysedd cyfredol y cymorth ar gyfer myfyrwyr amser llawn a rhan-amser;

- Dyma'r ffyrdd mwyaf blaengar o gynnig cymorth ychwanegol i fyfyrwyr gyda'u dyledion:
 - o cynnig grantiau cynhaliaeth ychwanegol i rai o gartrefi incwm isel;
 - o darparu adnoddau ychwanegol i ganiatáu i sefydliadau AU greu bwrsariau lleol ar gyfer rhai o gartrefi incwm isel;
 - o mynegrifo'r trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau myfyrwyr, o bosibl ar ôl codi'r trothwy. Fodd bynnag, pe byddai'r opsiynau hyn yn golygu mwy na newid gweinyddol syml, gallai Gweinidogion ystyried pwyso am newid ledled y DU yn hytrach na chwilio am ddatrysiad i Gymru yn unig;
- Mae gwella llythrennedd ariannol pobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas â benthyciadau myfyrwyr, yn ffordd o roi cymorth ychwanegol i fyfyrwyr gyda'u dyledion yn ogystal ag yn sgil bywyd angenrheidiol. Dylai Gweinidogion a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ymchwilio i'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn;
- O ganlyniad i'r bwlch ariannu rhwng AU yng Nghymru ac AU yn Lloegr (sy'n amlwg, er enghraifft, yn lefelau'r bwrsariau sefydliadol sydd ar gael neu yn lefel y buddsoddiad mewn cyfleusterau), mae perygl y bydd SAU Cymru yn llai atyniadol i fyfyrwyr;
- Daeth y Grŵp i'r casgliad y dylid defnyddio peth o'r cyllid sydd ar gael i gynorthwyo myfyrwyr addysg uwch i fuddsoddi yn narpariaeth sefydliadau addysg uwch Cymru er budd yr holl fyfyrwyr.

Argymhellion

Yng nghyd-destun y casgliadau uchod, mae'r Grŵp yn argymhell eich bod yn ystyried o ddifrif yr argymhellion canlynol er mwyn gwella ac adeiladu ar system cyllid myfyrwyr gyfredol Cymru:

- *Yn raddol, diddymwch y polisi Grant Ffioedd Dysgu*

Daeth y Grŵp i'r casgliad y dylai Gweinidogion ystyried a ydynt am barhau â'r polisi Grant Ffioedd Dysgu. Os yw Gweinidogion yn dymuno annog myfyrwyr amser llawn sy'n byw yng Nghymru i astudio yng Nghymru, dylid ceisio sicrhau bod astudio yn SAU Cymru yn fwy atyniadol drwy gynyddu eu gallu i gynnig bwrsariau ac ysgoloriaethau ychwanegol a thrwy gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer adnoddau SAU Cymru. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis i fyfyrwyr, ac yn annog myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i ddewis aros yn hytrach nag aros am resymau ariannol.

- *Darparwch lefelau uwch o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a gymorthdelir, sy'n ddigonol i dalu'r ffioedd dysgu a godir ar fyfyrwyr ac i ategu'r egwyddor 'dim ffioedd cyn cychwyn'. Os câi'r Grant Ffioedd Dysgu ei ddiddymu'n raddol byddai angen darparu lefelau uwch o Fenthyciadau Ffioedd Dysgu (er mwyn cynnal y polisi 'dim ffioedd cyn cychwyn').*
- *Defnyddiwch yr arbedion i ariannu'r canlynol yn uniongyrchol:*
 - o *Codwch lefel Grant Dysgu'r Cynulliad, sy'n destun prawf modd, yn sylweddol i fyfyrwyr o gartrefi â'r incymau isaf. Er enghraifft, roedd un senario enghreifftiol a ystyriwyd gennym yn codi lefel Grant Dysgu llawn y Cynulliad i £5,000 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2010/11 ar drothwyon cymhwysedd digon tebyg i drefniadau cyfredol – dyna un ffordd o godi lefel y Grant.*
 - o *Rhowch fwy o gyllid yn uniongyrchol i Sector AU Cymru i'w alluogi i gynnig bwrsariau ac ysgoloriaethau ychwanegol i fyfyrwyr yn SAU Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu mesurau i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei dargedu'n effeithiol at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol megis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, pynciau blaenoriaeth, ac ehangu mynediad i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel.*
 - o *Ailfuddsoddwch ran helaeth o'r cyllid hwn mewn addysg uwch yng Nghymru i leihau'r bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr. Er enghraifft, hyd yn oed pe bai 55% o'r adnoddau a gâi eu rhyddhau yn sgîl diddymu'r Grant Ffioedd Dysgu yn aros yn y system cyllid myfyrwyr statudol, gellid dargyfeirio 45% at sector AU Cymru er mwyn ariannu bwrsariau ac ysgoloriaethau ychwanegol ar gyfer myfyrwyr SAU Cymru a buddsoddi mwy yn y Sector AU. Yng Ngham 2 o'r adolygiad bydd y Grŵp yn ystyried pa fath o fuddsoddiad fydd yn cynnig y gwerth gorau cyn cyflwyno'i argymhellion i chi.*

Er y byddai'r mesurau uchod yn helpu myfyrwyr o gartrefi â'r incymau isaf, drwy ostwng lefel gyffredinol y dyledion y byddai'n rhaid iddynt eu hysgwyddo, rhaid cydnabod bod yna ddadl gref o blaid codi'r trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau myfyrwyr. Gan gydnabod y cymhlethdodau gweinyddol sy'n bodoli ledled y DU, mae'r Grŵp yn argymhell eich bod yn:

- Cydweithio â Gweinidogion o Loegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon i geisio sicrhau bod y trothwy ad-dalu'n cael ei fynegrifo. Mae'r Grŵp hefyd yn credu y dylid ystyried codiad untro yn y trothwy cyn ei fynegrifo (i'r lefel y byddai wedi codi iddi pe bai'r trothwy sefydlog a gyflwynwyd yn 2001 wedi'i fynegrifo).
- Ystyriwch gyflwyno gwyliau rhag ad-dalu tebyg i'r rhai a gynnigir i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr. Dymuna'r Grŵp weld myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn cael cyfle i fanteisio ar yr hyblygrwydd y mae'r polisi hwn yn ei gynnig i fenthycwyr, ac nid yw am iddynt fod dan anfantais o gymharu â'r rhai a gafodd eu benthyciadau myfyrwyr drwy system cyllid myfyrwyr Lloegr. Fodd bynnag, roedd y Grŵp o'r farn fod y polisi, fel y'i cyflwynwyd yn Lloegr, yn fwy manteisiol i'r graddedigion â'r enillion uchaf. Yn unol â'i fframwaith cyffredinol, mae'r Grŵp yn argymhell bod Gweinidogion, os byddant yn ystyried cyflwyno gwyliau rhag ad-dalu yng Nghymru, yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau eu bod yn fwy manteisiol i raddedigion ag enillion hyd at drothwy penodol.
- Monitrowch ac archwiliwch ymhellach y polisi a gyflwynwyd yn Lloegr sy'n gwarantu swm penodol o gyllid AU i fyfyrwyr sy'n gymwys, yn ôl prawf modd, i dderbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.
- Cydweithiwch â phartneriaid cyflenwi a chyrff sy'n eich cynghori (gan gynnwys Gyrfu Cymru, ysgolion, colegau, Canolfan Byd Gwaith a SAU Cymru), a cheisiwch sicrhau gwell dealltwriaeth o gostau a manteision AU a'r cymorth sydd ar gael. Yn arbennig, ceisiwch sicrhau gwell dealltwriaeth o fenthyciadau myfyrwyr, o fanteision y cymhorthdal benthyciadau ac o natur incwm-ddibynnol y trefniadau ad-dalu.
- Gofynnwch i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru adolygu llythrennedd ariannol ymhlith dysgwyr yng Nghymru.

I ategu'r argymhellion uchod, mae'r atodiadau dilynol yn cyflwyno trafodaethau'r Grŵp yn llawnach.

Gydol y misoedd diwethaf bu'r Grŵp yn ymwybodol o'r amserlen sefydlog ar gyfer cloi ein trafodaethau ar y system cyllid myfyrwyr.

Oherwydd yr amserlen, bu'n rhaid cyfyngu ar ehangder trafodaethau'r Grŵp ac mae'r Grŵp yn cydnabod, oherwydd cymhlethdod y maes, y gallai fod yna

opsiynau eraill a dylech ystyried yr argymhellion hyn yn y cyd-destun hwnnw. Efallai y bydd y Grŵp hefyd am ailystyried materion cyllid myfyrwyr ehangach, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr rhan-amser ac ôl-raddedigion, ac ymgysylltu â chyflogwyr, yn ystod Cam 2 o'r adolygiad hwn.